

## **Cyngor Cymuned Llanelian (272)**

Cofnodion cyfarfod nos Fercher Ionawr 13, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

### **Presennol:**

Dafydd Griffiths, Helen Hughes, Glenys Jones, Carol Whitaker, Gordon Hayes, John Griffiths, Elfyn Hughes

### **Ymddiheuriadau:**

Thomas D Jones, David Gerrard, Cyng Richard Jones

#### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Roedd yr aelodau yn cydymdeimlo a David Gerrard a'r teulu yn eu profedigaeth diweddar.

#### **2 Datgan Diddordeb**

Neb yn datgan diddordeb

#### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Helen Hughes, eilio John Griffiths.

#### **4 Materion yn Codi**

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion na fydd yn cael eu trafod ymhellach ymlaen yn y cyfarfod.

#### **5 Cynllunio**

5.1 Roedd dau gais i'w trafod –

- Tir Ger Rhos Newydd, Gadfa (24C325A/ENF) cynlluniau diwygiedig – gwrthwynebu'r cais am yr un rhesymau a'r cais gwreiddiol. Nid yw'r datblygiad yn addas i'r ardal. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau a oedd y cais gwreiddiol wedi ei alw i fewn i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir. CET

- Point Lynas Caravan Park (24C18K/SCR) - cefnogi'r cais am estyniad

5.2 Penderfyniadau - Ni chafwyd wybod am unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor Sir.

#### **6 Materion Ariannol**

6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£1660.87 Cyflog Clerc gan gynnwys Mynwent Bosra a'r Llithrfa

£246.29 Costau Clerc (Hydref-Rhagfyr)

£134.84 HMRC

6.2 Adroddiad Cyllid – dosbarthwyd gopiau o'r adroddiad chwarterol i bawb oedd yn bresennol a cafwyd grynodedb o'r prif wariant ac incwm. Nodwyd bod peth arian grant dros ben yn dilyn y prosiect yn y cae chwarae. Cytuno cysylltu ag Horizon i weld os cawn wario'r arian ar welliannau eraill yn y caeau chwarae. Byddai efallai posibilrwydd o osod swing i blant anabl am gost o £2502. Rhaid cofio bod angen peth gwaith ar yr offer chwarae coed yn y flwyddyn nesaf. CET

Nodwyd bydd angen cytuno ar y gyllideb a'r briseb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 yn y cyfarfod nesaf. Y clerc i drefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor cyn gynted a phosib. CET

Cofrestra Tir – mae'n debyg bod Maes Llwyfo wedi ei drosglwyddo i'r Cyngor yn swyddogol erbyn hyn. Bydd angen trefnu ei yswirio cyn gynted a phosib, cyn i yswiriant y Bartneriaeth ddod i ben. Mae cofrestru'r maes parcio ger Catherine Terrace a Chae Chwarae Lon Tyddyn Waen wedi ei gwblhau erbyn hyn hefyd. CET

6.3 Cais am Arian – cafwyd dau gais am arian (Dawns i Bawb ac Adain deheuol yr Ambiwllans Awyr). Cytuno eu bod yn fudiadau rhanbarthol a/neu cenedlaethol ac felly na fydd y Cyngor yn eu cefnogi.

#### **7 Llithrfa**

Cadarnhawyd bod Partneriaeth Llithrfa Llanelian wedi cwrdd i drafod yr opsiynnau a gynnigwyd gan y Cyngor Sir ac fe ddosbarthwyd gopiau o' gofnodion y cyfarfod hwnw i'r aelodau oedd yn bresennol. Cyflwynwyd argymhellion y Bartneriaeth i'r Cyngor sef:

- Nad oedd y Bartneriaeth yn gallu derbyn unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynwyd. Teimlai'r aelodau y byddai datrys y problemau wrth gyfyngu mynediad ar y llithrfa i gychod llai yn unig (hyd at 15 troedfedd).
- Bydd unrhyw newidiadau i reolaeth y cynllun yn cymryd amser, argymhell bod y cynllun yn aros yr un peth am dymor arall.

Trafodwyd yr argymhellion a'r opsiynau ar gynnig yn fanwl wrth drin a thrafod y problemau posib o ganlyniad i pob cynllun. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn am reolaeth a monitro'r cynllun petai'r Cyngor Sir yn cymryd perchnogaeth ohono gan nad oes digon o adnoddau ar gael ar hyn o bryd.

Cynnigwyd bod y llithrfa yn Llanelian yn cael ei ddileu i gerbydau cyn gynted a phosib, ac nad oedd y Cyngor Cymuned yn fodlon ei reoli am flwyddyn arall. Pawb yn cytuno. Penderfynnu ysgrifennu at y Cyngor Sir cyn gynted a phosib er mwyn cael ymateb, mae'n debyg na fydd angen i'r swyddogion ddod i'r cyfarfod yn Chwefror.

CET

Nodwyd bod rhan o'r wal ger y llithrfa wedi dymchwel a gofynnwyd i'r clerc gysylltu 'r Cyngor Sir i'w hysbysu cyn gynted a phosib.

CET

## **8 Gohebiaeth**

- 8.1 Horizon – byddent yn cynnal sesiynau gwybodaeth yn Neuadd y Dref, Amlwch ddydd Llun 18/1/2016.
- 8.2 Un Llais Cymru – gwybodaeth am gyfarfod Adran Mon sydd i'w gynnal 21/1/2016.
- 8.3 Rhifyn diweddaraf Clerks and Councils Direct.

## **9 Unrhyw Fater Arall**

- 9.1 Gosod Tai Cymdeithasol – mae ymgynghoriad ar hyn o bryd ar y ffordd mae tai yn cael eu gosod. Bydd angen ymateb erbyn Mawrth 6, 2016.
- 9.2 Y Bedol – deallwyd bod rhywun wedi torri i fewn i'r adeilad a bod peth difrod wedi ei wneud. Y bragdy sydd yn berchen arno byth.
- 9.3 Hanes Lleol – mae Gordon Hayes a grwp lleol wedi bod yn chwilio drwy hen ddogfennau ac wedi dod ar draws adroddiadau diddorol a doniol am y Cyngor Cymuned mewn cylchgrawn lleol yn dyddio i fis Mehefin 1915.

## **10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 2/2/2016**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.40 o'r gloch.